

## RHANBARTH LLAIS POWYS ADRODDIAD CRYNO AR YR HYN RYDYM WEDI' I GLYWED YM MHOWYS



Ymgysylltu sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned Ardal  
Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd

Tachwedd 2023

# FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

# CYNNWYS

Amdano Llais.....	4
Yr Hyn a Wnaethom .....	5
Yr Hyn a Glywsom.....	8
Yr Hyn a Glywsom o Sgyrsiau â Phobl .....	8
Yr Hyn a Glywsom o'r Arolygon.....	18
Yr Hyn Rydym Wedi'i Wneud Gyda'r Hyn Rydym Wedi'i Glywed .....	30
Crynodeb.....	33
Atodiad A.....	34
Ymateb gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.....	34
Atodiad B.....	39
Ymateb gan Gyngor Sir Powys .....	39
Diolch .....	45
Adborth.....	45
Manylion Cyswllt.....	45

# AMDANO LLAIS



Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arny'n nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw


Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a chyhoeddus" mewn gwahanol rannau o Gymru.



Dyma'r drydedd ardal yr ydym wedi cynnal digwyddiad ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y gymuned ynnddi am gyfnod o fis. Nod y digwyddiad ymgysylltu hwn oedd casglu profiadau bywyd pobl o gael mynediad at wasanaethau iechyd ac/neu ofal cymdeithasol a'u derbyn, p'un a yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu yn yr ardal leol neu'r tu allan i'r ardal leol. Rydym am gael gwybod am wasanaethau a ddarperir yng Nghymru neu yn Lloegr.

Roeddem am ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â phobl o bob oed ac sydd â diddordebau gwahanol. Roeddem am wrando ar eu barn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

I ddechrau, fe wnaethom gynnal ymchwiliad i gael gwybod pa weithgareddau fyddai'n digwydd yn yr ardal. Cysylltwyd â'r Cysylltydd Cymunedol ar gyfer yr ardal i wirio pa grwpiau neu weithgareddau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt.

Fe wnaethom hefyd ymchwilio i ba sefydliadau sy'n gweithredu yn yr ardal y gallem eu targedu i helpu i godi ymwybyddiaeth o Llais ac i roi gwybodaeth iddynt. Roedd hyn yn cynnwys dolen i arolwg cyffredinol yn gofyn i bobl am eu barn ar unrhyw wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Fe wnaethom gysylltiadau rhagorol â sefydliadau a gytunodd i helpu i godi proffil sefydliad Llais a helpu i gasglu adborth gan y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r sefydliadau hyn am eu cymorth a'u cefnogaeth:

- Rhoddodd elusen Age Cymru ein harolygon a'n taflenni yn y bagiau o nwyddau yr oedd yn eu dosbarthu yn Theatr Wyeside. Aeth yr elusen hefyd ag arolygon ychwanegol i'w dosbarthu i'r bobl y mae'n eu helpu.
- Roedd Tîm Cymorth Cartref Llanfair-ym-Muallt yn fodlon mynd â'n harolygon cyffredinol i'r holl gartrefi mae'n delio â nhw (tua 90 o bobl) a'u helpu i'w cwblhau os oedd angen.
- Dywedodd Cymorth yn y Gymuned Llanfair-ym-Muallt y gall roi arolygon wrth ddosbarthu presgripsiynau, a nwyddau o'r banc bwyd a'r siop.
- Cawsom wahoddiad i ymuno â sesiynau 'Paned gyda Phlison' Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

- Cynigiodd rhywun o 'Bumps to Buggies' fynd ag arolygon i'w dosbarthu i'w grŵp.

Roeddem yn gallu trefnu ymweliadau o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad i Adeiladau ac Ymgysylltu ag Unigolion. Roedd hyn yn ein galluogi i siarad â phobl am y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn yn y lleoliad roeddem yn ymweld ag ef a hefyd am wasanaethau eraill yr oeddent yn eu derbyn. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys meddygfeydd, fferyllfeydd a Chanolfan Iechyd a Gofal Glan Irfon.

Fe wnaethom ymgysylltu wyneb yn wyneb yn y lleoliadau canlynol neu gyda'r grwpiau canlynol:

Ymweliad â Phractis Meddygol Llanfair-ym-Muallt
Ymweliad â Meddygfa Llanwrtyd
Ymweliad a Fferyllfa Llanwrtyd
Digwyddiad Galw Heibio Age Cymru, Llanfair-ym-Muallt
Co-op, Llanfair-ym-Muallt
'Paned gyda Phlison', Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt
MIND, Llanfair-ym-Muallt
Sesiwn Eiriolaeth yn Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt
Marchnad Da Byw Llanfair-ym-Muallt
Cyfarfod â Llysgenhadon Lles yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt
Clwb Cinio Cymorth yn y Gymuned Llanfair-ym-Muallt
Ymweliad â Glan Irfon, Llanfair-ym-Muallt
Digwyddiad ymgysylltu y tu allan i Boots, Llanfair-ym-Muallt

Roedd gennym ni ddau arolwg i bobl eu cwblhau – roedd un yn arolwg cyffredinol i bobl roi sylwadau am unrhyw agwedd ar iechyd neu ofal



cymdeithasol ac roedd y llall yn arolwg am gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu. Roedd yr arolygon hyn ar gael ar-lein ac ar bapur.

## Yr Hyn a Glywsom o Sgyrsiau â Phobl

### Gwasanaethau Meddygon Teulu

Siaradodd rhai pobl am brofiadau cadarnhaol o gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu ym Mhractis Meddygol Llanfair-ym-Muallt. Clywsom gan bobl a oedd o'r farn eu bod yn gallu gwneud apwyntiadau pan oeddent eu hangen a bod y staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Roedd pobl yn gwerthfawrogi'r ffaith y gallent wneud apwyntiadau drwy ymweld â'r feddygfa wyneb yn wyneb ac nid dim ond drwy ffonio. Dywedodd rhai pobl nad oeddent bob amser yn gweld yr un meddyg ond nad oeddent yn poeni am hyn.

Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd gan bobl am y practis meddygol oedd y ffaith ei bod yn anodd cysylltu dros y ffôn. Nododd rhai pobl ei bod yn gyflymach cerdded i'r feddygfa nag aros ar y ffôn. Dywedodd nifer o bobl fod eu galwadau yn aml yn cael datgysylltu tra'u bod yn aros i siarad â rhywun. Dywedodd rhai pobl fod ceisio cysylltu dros y ffôn yn peri straen iddynt.

Mae ffonio am apwyntiad yn arbennig o anodd i bobl sydd wedi colli eu clyw. Dywedodd un person, a esboniodd ei fod yn drwm ei glyw, ei bod weithiau'n haws iddo gerdded i'r feddygfa i wneud apwyntiad. Er hynny, mae ganddo broblemau symudedd sy'n ei gwneud hi'n anodd cerdded ac nid yw'n gyrru.

Cododd pobl faterion yn ymwneud â chyfathrebu, gan gynnwys anhawster siarad yn uniongyrchol â meddyg a'r ffaith bod y feddygfa yn addo ffonio ond yna byth yn gwneud.

Clywsom gan bobl nad ydynt yn hoffi esbonio'u pryderon iechyd i'r derbynnydd.

Gwnaeth nifer o bobl sylwadau am beidio â chael apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda meddyg teulu. Dywedodd un person y gwrthodwyd ymweliad



cartref ar gyfer claf â chanser oedd yn sâl a bu'n rhaid iddo anfon llun a thrafod materion dros y ffôn.

Roedd rhai pobl o'r farn fod rhaid aros yn rhy hir ar gyfer apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys.

## Deintyddiaeth

Cafwyd rhai profiadau cadarnhaol mewn perthynas â gwasanaethau deintyddol lleol. Roedd rhai pobl wedi cofrestru'n llwyddiannus â deintydd y GIG yn Llanfair-ym-Muallt ar ôl aros yn hir. Derbyniodd person arall gymorth amserol pan gafodd apwyntiad deintyddol brys yn Llanfair-ym-Muallt drwy'r gwasanaeth 111.

Serch hynny, esboniodd y rhan fwyaf o bobl a drafododd ddeintyddiaeth pa mor anodd oedd cofrestru gyda deintydd y GIG yn yr ardal. Roedd rhai pobl wedi bod ar restr aros i gael eu cofrestru gyda deintydd lleol, a dywedodd un person ei fod wedi bod ar y rhestr ers pum mlynedd ond yn dal heb ei gofrestru.

Roedd rhai pobl wedi'u cofrestru gyda'r deintydd yn y Gelli Gandryll ond roedd hwnnw bellach yn bractis deintyddol preifat. Soniwyd am gost uchel gofal deintyddol preifat. Eglurodd un person ei fod wedi talu £600 er mwyn i ddant gael ei dynnu. Dywedodd pobl fod y practis deintyddol yn Aberhonddu yn derbyn cleifion preifat a'u bod yn teimlo bod hyn yn achosi oedi ar gyfer cleifion y GIG.

Eglurodd dau berson a oedd wedi ffonio 111 i gael gofal deintyddol brys eu bod yn cael anhawster cyrraedd y practis deintyddol lle trefnwyd yr apwyntiad oherwydd y pellter teithio.

Roedd cael apwyntiadau deintyddol wedi'u canslo ar y funud olaf yn fater a godwyd gan rai pobl. Mewn un achos, o ganlyniad i nifer yr apwyntiadau a gafodd eu canslo, trosglwyddodd y claf i ddeintydd y GIG y tu allan i'r ardal.

## Gwasanaethau Fferylliaeth

Cawsom sylwadau cadarnhaol am Fferyllfa Llanwrtyd. Dyma rai o'r sylwadau: "mae'r gwasanaeth yn ardderchog", "cyfleus iawn", "Mae'r fferyllfa yn Llanwrtyd yn wych. Dw i'n mynd yno cyn mynd at y meddyg".

## Amseroedd Aros am Ofal Wedi'i Gynllunio

Dyweddodd pobl wrthym eu bod yn aros yn hir i weld arbenigwr. Enghreifftiau a roddwyd oedd:

Disgwyl aros 60 mis i weld arbenigwr dermatoleg;  
Aros o leiaf ddwy flynedd am lawdriniaeth i osod clun newydd;  
Aros bron i dair blynedd am lawdriniaeth arenol (yn dal i aros);  
Aros blwyddyn am lawdriniaeth cataract (yn dal i aros a methu gweld).

Roedd rhai pobl yn dewis talu am ofal iechyd preifat, a oedd yn ddrud iawn.

Esboniodd un person fod ei apwyntiad sgrinio llygaid diabetig wedi'i ganslo ar ddechrau cyfnod COVID ac nad oedd wedi'i aildrefnu hyd yn hyn.

## Gofal yn yr Ysbyty

Clywsom gan berson yn ei 90au a aeth i Ysbyty Henffordd fel achos brys gyda phroblem ar y galon. Cafodd ei ryddhau am 2am ar ôl derbyn triniaeth. Roedd yn rhaid iddo aros dros nos mewn gwesty, ar ôl teithio yno mewn tacsî.

Clywsom am brofiad gwael claf yn yr ysbyty a oedd, ym marn y teulu, yn gysylltiedig â phrinder staff. Gofynnodd y claf am help i fynd i'r gwely o'r gadair ac aeth awr heibio cyn i rywun allu rhoi cymorth – cwmpodd y claf i gysgu yn y gadair.

Soniodd pobl am yr amser aros hir yn yr adran damweiniau ac achosion brys.

Awgrymodd un person mai canolfannau galw heibio yw'r ffordd ymlaen fel ffordd o drin pobl nad oes angen iddynt fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Cafodd brofiad o ganolfannau o'r fath yng nghanolbarth Lloegr.

## **Y Pellter i Wasanaethau**

Gwnaeth nifer o bobl sylwadau ar y pellter i ysbyty cyffredinol dosbarth, gyda llawer o bobl yn sôn am deithio i Ysbyty Henffordd neu Ysbyty'r Tywysog Siarl.

## **Opsiynau o ran Trafnidiaeth**

Cawsom rai sylwadau cadarnhaol iawn am y cynllun cludiant cymunedol sydd ar gael yn Llanfair-ym-Muallt.

Siaradodd un person am yr opsiynau cyfyngedig o ran trafndiaeth gyhoeddus. Mae un bws yr wythnos sy'n teithio'n uniongyrchol o Lanfair-ym-Muallt i Henffordd. Mae'r bws yn gadael Llanfair-ym-Muallt am 9.30am, yn cyrraedd Henffordd am 11.20am ac yna'n gadael Henffordd am 1.40pm - felly, dim ond ychydig iawn o amser sydd ar gyfer mynd i apwyntiadau. Ar ddyddiau eraill, mae bws o Landrindod i Kington, ac mae rhaid newid yn Kington er mwyn teithio ymlaen i Henffordd. Os yw'r bysiau'n rhedeg yn hwyr, mae hyn yn arwain at bobl yn colli apwyntiadau.

Ar ôl iddi fwrw glaw cryn dipyn, mae llifogydd yn aml ar y ffyrdd i Henffordd, sy'n arwain at ddargyfeiriadau ac amseroedd teithio llawer hirach.

## **Gwasanaethau Ambiwllans**

Mynegodd pobl eu pryderon am amseroedd aros ambiwlansys. Rhoddodd pobl enghreifftiau o aros am 2½ awr yn dilyn damwain, a wynebu gorfod aros am 8 awr a arweiniodd at aelod o'r teulu yn gyrru'r claf a gafodd drawiad (*seizure*) i'r ysbyty.

Clywsom brofiad cadarnhaol unigolyn yn dilyn codwm, lle cyrhaeddodd yr ambiwlans o fewn amser rhesymol. Cafodd driniaeth yn yr ambiwlans ac nid oedd angen ei gludo i'r ysbyty.

## **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dywedwyd wrthym am glaf a oedd yn yr ysbyty am ddau fis tra'r oedd yn aros am becyn gofal. Ymhen hir a hwyr, trosglwyddwyd y person i gartref gofal.

Siaradodd un person am sylwadau amhriodol a wnaed gan rywun pan oedd yn dioddef o iselder a chysylltodd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am gymorth.

## **Gwasanaethau a Ddarperir gan Sefydliadau Trydydd Sector**

Clywsom gan bobl a oedd yn meddwl bod y gwasanaethau a'r grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan y gangen MIND leol yn hanfodol i'r gymuned ac roeddent o'r farn bod yn rhaid iddynt barhau i gael eu cynnal.

## **Materion a Godwyd gan Dîm Cymorth yn y Gymuned Llanfair-ym-Muallt a Thîm Cymorth Cartref Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd**

Mae Tîm Cymorth yn y Gymuned Llanfair-ym-Muallt yn cynnal cynlluniau i helpu pobl i fyw bywydau annibynnol ac iach yn eu cymuned. Mae'n darparu cynllun ceir yn y gymuned, gwasanaeth siopa a dosbarthu presgripsiynau, gwasanaeth cyfeillio ac mae ganddo gangen lloeren o Fanc Bwyd Llandrindod.

Mae'r Tîm Cymorth Cartref yn darparu cefnogaeth a chymorth i unigolion fel y gallant barhau i fyw yn eu cartref eu hunain.

Cododd y Tîm Cymorth yn y Gymuned rai cwestiynau a sylwadau am y system apwyntiadau ar gyfer rhaglen frechu COVID yr hydref. Roedd yn derbyn ceisiadau gan rai pobl oedd angen cludiant i Fronllys ac eraill oedd angen cludiant i Ganolfan Glan Irfon i gael eu brechu, yn aml ar yr un dyddiadau. Roedd y Tîm Cymorth yn y Gymuned wedi gofyn ar ddechrau'r rhaglen a fyddai cleifion yn gallu cael eu brechu'n lleol, yn lle

gorfod teithio i Fronllys. Dywedwyd wrtho, fodd bynnag, na fyddai hynny'n bosibl, ond fe ddechreuodd dderbyn ceisiadau am gludiant gan bobl oedd angen mynd i Ganolfan Glan Irfon. Dywedodd hefyd ei fod yn cael anawsterau aildrefnu apwyntiadau pan nad oedd y claf yn bresennol.

Yn ystod mis Tachwedd, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i drefnu clinig allgymorth ychwanegol yn y Pafiliwn yn Llandrindod. Arweiniodd hyn at Dîm Cymorth yn y Gymuned Llanfair-ym-Muallt yn derbyn mwy o geisiadau na'r disgwyl am gludiant. Byddai wedi gwerthfawrogi cael gwybod ymlaen llaw gan y Bwrdd Iechyd er mwyn rhoi'r cyfle iddo baratoi ar gyfer hyn.

*Cysylltwyd â'r Bwrdd Iechyd i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am raglen frechu COVID a gwnaethom ei hysbysu o'r pryderon uchod.*

Cododd y Tîm Cymorth Cartref fater gyda ni ynghylch yr angen i bwysio padiau anymataliaeth a ddefnyddiwyd os oedd angen pad mwy o faint ar glaf.

Cawsom rai sylwadau hefyd am hyd yr amser aros rhwng yr asesiad a dechrau derbyn cynhyrchion ymataliaeth. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi cael gwybod y byddai'n rhaid aros am dri mis ac felly roedd yn dod o hyd i gynhyrchion ei hunan, oedd yn ddrud iawn.

*Fe wnaethom gysylltu â'r Bwrdd Iechyd i ofyn ynglŷn â'r Gwasanaeth Ymataliaeth ac i ofyn a oedd pwysio padiau anymataliaeth a ddefnyddiwyd yn gais arferol. Esboniodd Rheolwr Gwasanaeth Ymataliaeth y Bwrdd Iechyd y broses asesu a'r angen i sicrhau bod pad o'r maint cywir ac o'r amsugnedd cywir yn cael ei ddarparu i gleifion.*

## **Trafodaethau gyda Phobl Ifanc**

Fe wnaethom gwrdd â grŵp o 10 Llysgennad Lles yn Ysgol Calon Cymru, Campws Llanfair-ym-Muallt. Disgyblion yn yr ysgol ydynt sy'n cynrychioli eu cyfoedion ac sy'n cwrdd i drafod ffyrdd o wella lles disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

- Siaradodd disgyblion am y cymorth lles emosiynol/iechyd meddwl sydd ar gael yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol lysgenhadon iechyd meddwl gwrywaidd er mwyn ceisio annog mwy o fechgyn i siarad am eu hiechyd meddwl. Mae ganddyn nhw focsys 'Wyt Ti'n iawn' o gwmpas

yr ysgol. Mae yna athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl ac mae disgyblion yn gwybod pwy ydyn nhw a lle gallant fynd i siarad â nhw. Fe wnaethant drefnu i bobl o MIND fynd i'r ysgol. Mae ardaloedd/ystafelloedd tawel penodol yn yr ysgol y gall disgyblion fynd yno os ydynt yn teimlo bod angen seibiant arnynt. Roedd y disgyblion yn y grŵp yn teimlo bod hyn i gyd yn dda. Fodd bynnag, dywedodd rhai nad oeddent yn meddwl bod digon o arian yn cael ei wario ar flaenoriaethu iechyd emosiynol a chorfforol disgyblion.

- Roedd cyfarfodydd y Llysgenhadon Lles wedi cael eu gohirio am ychydig ond roedd bwriad i ddechrau eu cynnal eto.
- Nid oedd disgyblion yn meddwl bod gan yr ysgol Nyrs Ysgol. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn ymwybodol o'r llinell gymorth testun o'r enw ChatHealth, fe wnaethant ddweud eu bod wedi gweld posteri. Fodd bynnag, soniwyd bod posteri wedi'u tynnu oherwydd bod y delweddau arnynt yn cael eu hystyried yn amhriodol. Fe wnaethant ddweud hefyd nad oedd y posteri fawr o ddefnydd iddynt yn yr ysgol oherwydd nad oeddent yn cael defnyddio eu ffonau symudol tra'u bod yn yr ysgol - felly ni allent ddefnyddio'r cod QR na'r rhif testun. Roeddent yn meddwl y byddai'n well pe bai'r posteri mewn mannau eraill y tu allan i'r ysgol, megis meddygfa, o amgylch y dref neu mewn lleoedd/clybiau y mae pobl ifanc yn mynd iddynt.

*Oherwydd ein bod wedi cael cyswllt diweddar gyda'r Tîm Nyrsio Ysgolion ynglŷn â hyrwyddo ChatHealth, rydym wedi rhoi gwybod iddo am y sylwadau a wnaed gan y disgyblion am y posteri a ble yw'r llefydd gorau i'w rhoi. Rhoddodd y Tîm wybod i ni eu bod hefyd yn dosbarthu cardiau busnes i ddisgyblion gyda manylion cyswllt a chod QR arnynt sy'n caniatáu i bobl ifanc sganio'r cod y tu allan i oriau ysgol.*

- Siaradodd y disgyblion am sut y rhoddwyd defnydd o dechnoleg ar waith yn ystod COVID ond, wrth i amser fynd heibio, mae pethau wedi newid ac nid ydynt yn gallu ei defnyddio mwyach.
- Dywedodd y disgyblion nad ydynt yn teimlo'n ddigon hen na hyderus i gysylltu â meddygon eu hunain. Ni fyddent yn gwybod sut i fynd ati i wneud apwyntiadau.
- Soniodd rhai o'r disgyblion fod yr amser aros am wasanaethau orthodonteg yn rhy hir. Roedd un person ifanc wedi bod yn aros am 2 flynedd a siaradodd am yr effaith a gafodd hyn ar ei hyder.

- Soniodd disgyblion am yr anhawster wrth gofrestru ar gyfer deintydd a'r amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau deintyddol. Eglurodd un person fod ei riant wedi cael argyfwng deintyddol a'i fod wedi gorfod talu llawer o arian i fynd yn breifat.
- O ran apwyntiadau ysbyty, dywedodd rhai disgyblion eu bod yn mynd yn rhwystredig ynghylch yr amser aros yn y clinig/ysbyty ar gyfer eu hapwyntiadau. Eglurodd un person ei fod wedi bod i'r ysbyty am lawdriniaeth ddydd a bu'n rhaid iddo aros mwy na chwe awr cyn ei lawdriniaeth. Eglurodd person arall ei fod wedi mynd am apwyntiad ysbyty yn ddiweddar a oedd wedi'i drefnu am 10.20am ond ni chafodd ei weld tan wedi 12pm.
- Buont yn siarad am amseroedd aros ar gyfer ambiwlansys. Fe wnaethon nhw roi enghreifftiau o aros yn hir yn dilyn anaf rygbi ac yn dilyn damwain beic modur. Enghraifft arall a roddwyd oedd teulu'n cael gwybod y byddai'n well pe gallent fynd â'r claf i'r ysbyty neu wynebu aros yn hir am ambiwlans – achosodd hyn lawer o straen a phryder i'r teulu yn ystod y daith. Siaradodd y bobl ifanc am yr effaith a gafodd y profiadau hyn ar y cleifion a'r bobl oedd gyda nhw; weithiau roedd hyn yn cael effaith barhaol ar les emosiynol rhywun.

Dywedodd y bobl ifanc fod amseroedd aros ar gyfer ambiwlansys yn peri pryder yn arbennig oherwydd bod popeth mor bell i ffwrdd.

- Buont hefyd yn siarad am amseroedd aros hir mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.
- **Oherwydd pryderon ynghylch amseroedd aros ar gyfer ambiwlansys, dywedodd nifer o'r disgyblion yn y grŵp yr hoffent weld cyrsiau Cymorth Cyntaf yn cael eu cynnal yn yr ysgol. Roedd rhai disgyblion wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf mewn grwpiau/gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ac roeddent yn meddwl ei bod yn bwysig i bob person ifanc gael hyfforddiant.**
- Siaradom am y bwriad i Llais/Bwrdd Iau Dechrau'n Dda gynnal arolwg iechyd meddwl gyda phobl ifanc. **Dywedodd y disgyblion a oedd yno y byddai'n well ganddynt i hyn gael ei wneud fel arolwg dienw yn hytrach na thrwy grwpiau ffocws bach – byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn rhoi eu barn mewn arolwg ar-lein yn hytrach na gorfod siarad am bethau o flaen pobl eraill. Roeddent yn awgrymu y gellid gwneud hyn yn yr ysgol – weithiau maent yn cwblhau arolygon tra'u bod yn yr ysgol. Fe wnaethon nhw**



**ddweud efallai ei bod yn bosibl trefnu hyn drwy'r Pennaeth.**


## **Ymweld â Chanolfan Iechyd a Gofal Glan Irfon**

Mae uned iechyd a gofal 12 gwely Glan Irfon yn darparu gwasanaeth ail-alluogi arhosiad byr. Cawsom gyfle i ymweld â'r uned ail-alluogi ac ymgysylltu â'r chwe pherson a oedd yn aros yn yr uned.

Cawsom y sylwadau canlynol gan bobl yn yr uned:

- Siaradodd claf am ei brofiad yn Ysbyty Amwythig. Roedd wedi cael ei symud o wely i wely ac o un ward i'r llall. I bob golwg, roedd hyn oherwydd bod dryswch ynghylch pa arbenigwr oedd ei angen. Ychydig iawn o gyfathrebu oedd rhwng pob adran ac roedd yn ymddangos bod pob arbenigwr yn poeni am ei 'silo' ei hun yn unig. Nid oedd yr arbenigwyr yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd nac â'r claf. Teimlai'r claf fod yr arbenigwyr wedi anwybyddu ei gwestiynau. Roedd wedi cael trafferth cysgu oherwydd bod goleuadau llachar bob amser ymlaen ac roedd y wardiau'n swnllyd. Dywedodd y claf ei fod yn gyfnod llawn straen.

Ers cyrraedd Glan Irfon, roedd y claf yn cael rhywfaint o ofal ffisiotherapi ond teimlai nad oedd hwn yn cael ei ddarparu'n ddigon rheolaidd.



**Mae cael fy nhrin fel  
rhif yn hytrach na bod  
dynol wedi bod yn  
brofiad rhwystredig**

- Soniodd claf am ei brofiad o fod yn yr ysbyty nifer o weithiau am nifer o flynyddoedd. Roedd wedi bod yn yr ysbyty ers mis Gorffennaf. Roedd

y claf yn teimlo'n rhwystredig bod y pecyn gofal a'r addasiadau cartref gofynnol yn cymryd amser hir i'w trefnu. Teimlai'r claf fod y diffyg cyfathrebu a gwybodaeth yn ddigon i dorri'i ysbryd.

- Roedd claf arall yn ysu i fynd adref a dywedodd na chafwyd unrhyw esboniad pam yr oedd oedi wrth drefnu pecyn gofal. Disgrifiodd y claf ei ystafell fel 'cell carchar' a dywedodd fod yr arhosiad yng Nglan Irfon fel 'lle i'r rhai anghofiedig'. Dywedodd fod y staff yn garedig a chyfeillgar. Fodd bynnag, nid oedd gan y claf weithiwr cymdeithasol ac felly roedd yn profi ymdeimlad o 'gael ei roi o'r neilltu', heb allu cael gafael ar y cyngor proffesiynol na'r wybodaeth am drosglwyddo gofal efallai y byddai wedi'i chael mewn ysbyty.
- Soniodd pobl yn y gymuned hefyd am Ganolfan Glan Irfon. Mynegodd rhai siom nad oes yno welyau ysbyty cymunedol ers sawl blynedd. Clywsom bryderon am ddiffyg defnydd o'r gwelyau yn yr uned nawr. Roedd rhai pobl o'r farn y gallai fod yn well eu defnyddio ar gyfer pobl yr oedd angen eu rhyddhau o ysbytai cyffredinol dosbarth.

## Yr Hyn a Glywsom o'r Arolygon

Roedd gennym ddau arolwg ar gael i bobl eu cwblhau, naill ai ar-lein neu ar bapur. Roedd gennym arolwg cyffredinol lle gallai pobl ddweud wrthym am unrhyw wasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol a gawsant, ac arolwg am wasanaethau meddygon teulu.

Roedd y dolenni ar-lein i'r arolygon ar daflenni a ddosbarthwyd ym mhob sesiwn ymgysylltu ac anfonwyd copiâu at sefydliadau i'w rhannu'n gyhoeddus.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Dîm Cymorth Cartref Llanfair-ym-Muallt a Thîm Cymorth yn y Gymuned Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd am ddsbarthu copiâu papur o'r arolygon i'w cleientiaid. Y canlyniad oedd ein bod wedi derbyn nifer helaeth o arolygon wedi'u cwblhau.

### Arolwg Cyffredinol – Dywedwch wrthym am y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gawsoch

Cawsom **93** o ymatebion i'r arolwg hwn gan bobl sy'n byw yn ardal cod post Llandrindod.

Y gwasanaethau y gwnaeth pobl sylwadau arnynt oedd:

Gwasanaeth	Nifer y Sylwadau
Gwasanaeth Cymorth Cartref Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd	46
Gwasanaethau Meddygon Teulu	20
Gofalwyr	13
Gwasanaeth Nyrsio Ardal	5
Deintydd	4
Cludiant Cymunedol Llanfair-ym-Muallt	3
GIG	2
Gwasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys	2
Gofal Cymdeithasol	2
Aros am Ofal Wedi'i Gynllunio	2
Gwasanaeth Ambiwylans	1

Gofal Canser	1
Ffisiotherapi CMATS	1
Gofal Dementia	1
Urddas Gofal yn yr Ysbyty	1
Canolfan Iechyd a Gofal Glan Irfon	1
Nyrs Parkinson	1

Mae crynodeb o'r hyn a glywsom yn yr ymatebion i'r arolwg isod:

### **Gwasanaeth Cymorth Cartref Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd**

Darparodd pobl adborth cadarnhaol am y gwasanaeth Cymorth Cartref, gan fynegi eu diolch am y cymorth a'r gefnogaeth ymarferol ac emosiynol.

Mae cleientiaid yn gwerthfawrogi ymweliadau rheolaidd neu alwadau ffôn gan y Tîm Cymorth Cartref. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a chydabyddir ei fod yn cyfrannu at eu lles cyffredinol. Mynegodd pobl werthfawrogiad am y cymorth mewn perthynas â rheoli meddyginiaeth, gan gynnwys casglu a dosbarthu presgripsiynau a meddyginiaeth, a hefyd mewn perthynas â thasgau dyddiol fel darllen llythyrau, rheoli apwyntiadau a chyflawni dyletswyddau yn y cartref.

Gwasanaeth hyblyg yw ef yn ôl y sôn ac fe'i canmolir am ei ymateb cyflym a'i barodrwydd i gynorthwyo gyda cheisiadau amrywiol. Mae'r staff yn dangos trugaredd a dealltwriaeth tuag at eu cleientiaid.

Dyweddodd pobl eu bod yn argymhell y gwasanaeth i ffrindiau a theulu a phwysleisiwyd y profiadau cadarnhaol a gawsant.

Dywedant fod y gwasanaeth yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau.

Roedd y sylwadau a wnaed am sut y gellid gwella pethau yn ymwneud â'r awydd am fwy o staff yn y Tîm Cymorth Cartref a hefyd yn ymwneud ag eisiau i weithwyr cymorth ddarparu mwy o wasanaethau o'r math 'gofal'.

### **Gwasanaethau Meddygon Teulu**

Roedd adborth am wasanaethau meddygon teulu yn gymysg, gyda rhai cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd, tra bod eraill yn mynegi

pryderon am hygyrchedd, proffesiynoldeb ac ansawdd asesiadau meddygol.

Cafwyd nifer o sylwadau yn mynegi bod y staff yn gyfeillgar, yn gymwynasgar ac yn darparu gwasanaeth da.

Mynegodd rhai cleifion anhawster wrth sicrhau apwyntiadau, a byddai'n well gan bobl apwyntiadau wyneb yn wyneb yn hytrach nag apwyntiadau dros y ffôn. Roedd rhai pobl yn teimlo bod diagnosis yn anghywir neu wedi'i ohirio oherwydd nad oeddent yn gallu cael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda meddyg.


Soniwyd am yr angen am fwy o feddygon.

Gwnaeth rhai pobl sylwadau ar newidiadau i'r system yn ystod y blynyddoedd diwethaf a mynegodd rhai cleifion rwystredigaeth bod ymweliadau cartref yn cael eu gwrthod.

## **Gofalwyr**

Rhoddodd pobl adborth cadarnhaol am ofalwyr cyflogedig ac roeddent yn ddiolchgar am y cymorth ymarferol ac emosiynol sy'n cyfrannu at eu lles.

Soniodd pobl am brinder staff a'r anhawster wrth sefydlu pecynnau gofal, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Arweiniodd hyn at bobl yn ceisio gofalu am eu hanwyliaid heb gymorth a heb seibiant. Roedd gan un person becyn gofal y cytunwyd arno bedwar mis yn ôl ond, er iddo gysylltu â Chyngor Sir Powys yn rheolaidd, nid yw wedi bod yn bosibl trefnu'r gofal eto.



**Mae angen mwy o ofalwyr! Mae angen gwell rhwydwaith cymorth a gwybodaeth ar gael i helpu anwyliaid i ymdopi. Gallai unrhyw un fod yn y sefyllfa hon ac ar ôl mynd trwy'r profiad, roedd fel petai nad oedd unrhyw gymorth ar gael.**

Dyweddod rhai unigolion y byddent am i ofalwyr gael mwy o amser ar gyfer yr ymweliadau ac fe wnaethant ddweud y byddent yn awyddus am fwy o ryngweithio cymdeithasol yn ystod ymweliadau gofal.

Dyweddod un person fod ei ofalwyr fel arfer yn hwyr a bod hyn yn golygu ei fod ofn cwmpo a chael damweiniau toiled.

### **Gwasanaeth Nyrsio Ardal**

Roedd yr adborth am nyrsys ardal yn gadarnhaol ar y cyfan. Disgrifir nyrsys yn gyfeillgar, wedi'u hyfforddi ac yn gymwynasgar, sy'n darparu cymorth tyner a chwrtais wrth newid gorchuddion.

Fodd bynnag, roedd un awgrym ar gyfer gwella, sef cais am well cydweithio rhwng y nyrsys ardal a'r feddygfa. Roedd y mater penodol a dynnwyd sylw ato yn ymwneud â chais am glytiau ac eli, lle teimlai'r claf na ddylai fod yn rhaid iddo ofyn am gyflenwadau na'u casglu o'r feddygfa i'r nyrs ardal eu defnyddio.

### **Gofal Deintyddol**

Roedd yr adborth am ddeintyddion yn ymwneud ag anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG a'r amser aros am apwyntiad. Dyweddod rhai pobl fod deintyddion y GIG wedi mynd yn breifat yn ddiweddar, a oedd yn effeithio ar argaeledd apwyntiadau'r GIG. Yn un o'r sesiynau grŵp yr aethom iddi, dyweddod 83% o'r rhai oedd yno eu bod naill ai wedi'u cofrestru gyda deintydd yn rhywle arall neu nad oeddent wedi'u cofrestru o gwbl oherwydd na allent gofrestru gyda'r practis deintyddol yn Llanfair-ym-Muallt.

Crybwyllwyd bod cyfathrebu'n wael wrth roi gwybod am apwyntiad ac enghraifft o hyn oedd claf nad oedd wedi derbyn neges bod apwyntiad wedi'i ganslo.

### **Cludiant Cymunedol Llanfair-ym-Muallt**

Fe wnaeth pobl ganmol y gwasanaeth cludiant cymunedol hefyd, gan ddweud ei fod yn wasanaeth gwych gyda phobl gymwynasgar. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth.

## **Y GIG yn Gyffredinol**

Mae'r adborth cyffredinol ar y GIG yn cynnwys pryderon am ddiagnosis o bell, amseroedd aros hir ar gyfer apwyntiadau gyda'r meddyg, oedi wrth gael mynediad at arbenigwyr, staff nyrsio yn arddangos agwedd 'gwbl ddifater', a'r angen i droi at ofal iechyd preifat i gael triniaeth amserol.

Mae rhwystredigaethau ynghylch y ffaith bod dim ysbyty cyffredinol dosbarth ym Mhowys, sy'n arwain at oedi a allai fygwth bywyd wrth aros am ambiwlans a'r annhegwch canfyddedig wrth ddyrannu gwasanaethau gofal iechyd. Cafwyd sylw hefyd am y gwariant gwastraffus canfyddedig ar ohebiaeth yn Gymraeg, a'r awgrym oedd y gellid dyrannu adnoddau'n well.

## **Gwasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys**

Dywedodd un person ei bod yn anodd iawn trefnu cludiant ysbyty.

## **Gofal cymdeithasol**

Cafwyd rhai sylwadau am yr angen i fwy o help fod ar gael a chael ei gynnig i bobl hŷn, er enghraifft cymorth gyda thasgau corfforol o amgylch y cartref a chymorth yn ystod amser prydau bwyd.

## **Aros am Ofal Wedi'i Gynllunio**

Cafwyd nifer o sylwadau gan bobl a oedd yn aros am ofal wedi'i gynllunio. Roedd enghreifftiau wedi'u rhoi yn ymwneud â llawdriniaeth goden fustl, asgwrn cefn, arenol a chataract. Mewn un achos, cafodd llawdriniaeth claf ei chanslo deirgwaith. Unwaith, cafodd ei chanslo ar ôl iddo gael ei baratoi ar gyfer y llawdriniaeth.

## **Gwasanaeth Ambiwllans**

Cawsom sylwadau cadarnhaol am griwiau ambiwlans sydd wedi helpu claf ar ôl sawl codwm – dywedodd y claf fod y staff wedi 'gwneud gwaith gwych' a bod 'staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gymwynasgar iawn'.



## Gofal Canser

Dywedwyd wrthym mai dim ond gofal cyfyngedig oedd ar gael i glaf a gafodd ddiagnosis o ganser, oherwydd dim ond un Nyrs Ganser oedd ym Mhowys.

## Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrsgerberbydol Clinigol

Gwnaed sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth a ddarperir gan CMATS.

## Canolfan Iechyd a Gofal Glan Irfon

Canmolwyd y gwasanaeth a staff Glan Irfon.



## Nyrs Parkinson

Esboniodd claf ei brofiad cadarnhaol o gael ei fonitro gan y Nyrs Parkinson, gan nodi bod y nyrs yn ymweld ag e ac yn cynnal archwiliadau'n rheolaidd a bod y gofal a ddarperir yn rhagorol.

## Arolwg Cleifion am Wasanaethau Meddygon Teulu

Daeth **71** o arolygon wedi'u cwblhau i law.

Enw'r Practis Meddyg Teulu

Practis Meddygol Llanfair-ym-Muallt (gan gynnwys Llanwrtyd)	55
Practis Meddygol Llandrindod	4

Meddygfa Rhaeadr	4
Iechyd Bro Ddyfi	2
Meddygfa Stryd Wylcwm	2
Grŵp Meddygol Aberhonddu	1
Glan Irfon, Llanfair-ym-Muallt	1
Canolfan Feddygol Haygarth	1
Cwm Nedd	1

### **Pa mor hawdd yw hi i wneud apwyntiadau arferol**

Cafwyd ymateb cymysg, gyda 39 o bobl yn ymateb eu bod yn ei chael yn hawdd iawn neu'n hawdd, 18 o bobl yn nodi nad yw'n hawdd nac yn anodd, ac 14 o bobl yn ymateb eu bod yn ei chael yn anodd neu'n anodd iawn gwneud apwyntiadau arferol.

Gwnaeth y mwyafrif o bobl (64) eu hapwyntiadau dros y ffôn, ac roedd eraill yn gwneud apwyntiadau wyneb yn wyneb.

Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn gallu cael apwyntiad o fewn wythnos i'w cais. Roedd 12 ohonynt yn aros llai na 48 awr, 17 o bobl yn aros 1-2 wythnos, 6 o bobl yn aros 2-3 wythnos a dim ond un person yn gorfod aros mwy na 3 wythnos.

### **Pa mor hawdd yw hi i gael mynediad at apwyntiadau brys**

Cafwyd ymateb cymysg hefyd ynghylch gwneud apwyntiadau brys, gyda 29 o bobl yn dweud ei fod yn hawdd neu'n hawdd iawn, 25 o bobl yn dweud nad yw'n hawdd nac yn anodd a 13 o bobl yn nodi ei fod yn anodd neu'n anodd iawn. Nid oedd angen i 4 o bobl wneud apwyntiad brys.

### **Defnyddio Fy Iechyd Ar-lein**

Nid oedd unrhyw ymatebwyr wedi defnyddio Fy Iechyd Ar-lein. Roedd 20 o bobl wedi clywed amdano ond heb ei ddefnyddio ac nid oedd 51 o bobl yn meddwl ei fod ar gael yn eu meddygfa.

Nodir y bwriad i roi'r gorau i Fy Iechyd Ar-lein ar ddiwedd mis Rhagfyr 2023 ac awgrymir nawr bod cleifion yn lawrlwytho ac yn cofrestru ar gyfer

Ap GIG Cymru.

## **Pa mor hawdd yw hi i ofyn am bresgripsiwn rheolaidd**

Ni chafodd y mwyafrif o bobl unrhyw anhawster wrth ofyn am bresgripsiynau rheolaidd. Dim ond 2 glaf a ddywedodd eu bod yn ei chael yn anodd.

## **Preifatrwydd wrth y Dderbynfa**

Dim ond 35% o ymatebwyr oedd o'r farn bod ganddynt ddigon o breifatrwydd wrth y dderbynfa ac roedd gweddill yr ymatebwyr o'r farn y gallai fod yn well.

## **Teithio i'r Feddygfa**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teithio i'r feddygfa mewn car, gyda 14 ohonynt yn nodi eu bod yn defnyddio'r cludiant cymunedol neu'n teithio mewn tacsï. Dywedodd 14 o bobl eu bod yn gallu cerdded i'r feddygfa.

## **Oriau Agor y Feddygfa**

Dim ond 3 ymatebydd oedd ddim yn hapus ag oriau agor y feddygfa. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl (57) eu bod yn hapus neu'n hapus iawn ac roedd 11 o bobl yn ddigon bodlon â'r oriau agor.

## **Pa mor gymwynasgar yw'r staff**

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar ba mor gymwynasgar yw'r staff, gyda 12 yn hapus iawn, 34 yn hapus ac 19 yn ddigon bodlon. Roedd 6 o bobl yn anhapus gyda'r staff.

## **Cyfathrebu**

Dim ond 1 person a ddywedodd nad oedd yn gallu cyfathrebu yn ei ddewis iaith. Dywedodd y person hwn nad oedd unrhyw dderbynyddion Cymraeg eu hiaith.

Roedd 62 o bobl o'r farn bod y cyfathrebu a gawsant gan eu meddygfa yn ddigonol.

Roedd y sylwadau am gyfathrebu fel a ganlyn:

Dim ond tair blynedd yn ôl y symudais i'r ardal o Loegr. Nid wyf wedi cael unrhyw wybodaeth am apwyntiadau sgrinio iechyd arferol ar gyfer pobl dros 70 oed.

Dim problem gyda'r gwasanaethau meddygon teulu yn gyffredinol. Dim ond problemau cysylltu yn y bore ar gyfer apwyntiad brys. Weithiau'n gorfod aros dros 25 munud ar y ffôn, felly weithiau mae'n rhaid i mi gerdded i'r feddygfa.

Staff digywilydd. Heb eu hyfforddi'n iawn.

Nid yw deg munud yn ddigon ar gyfer rhai problemau a dim ond un salwch ar y tro y gallwch chi siarad amdano. Os oes gennych ddau salwch mae'n rhaid i chi wneud ail apwyntiad. Mae angen mwy o feddygon. Roedd yr hen system yn gweithio pymtheg mlynedd yn ôl ac fe weithiodd yn llawer gwell hefyd!

Rhy hirwyntog. Gorfod esbonio pam fod angen ymgynghoriad arnaf. Nid yw meddyg byth yn darllen unrhyw lythyrau a anfonaf; nid wyf byth yn cael ymateb.

Aros am ganlyniadau ac ati.

Mae amseroedd aros yn annerbyniol. Methu gweld fy meddyg teulu ar adegau. Anodd cysylltu dros y ffôn yn y bore.

Rhoesom gyfle i bobl wneud unrhyw sylwadau pellach am y gwasanaeth a chawsom y wybodaeth ganlynol:

Wedi cael gwasanaeth gwych bob amser wrth ddod gyda fy mabi.

Nid wyf yn mynd yno fel arfer ond mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n dda.

Meddygfa ardderchog. Yn enwedig o ran delio â fy mab sy'n ugain mis oed. Cyfathrebu da gan glinigwyr. Fy unig feirniadaeth yw faint o amser mae'n ei gymryd i gysylltu â rhywun dros y ffôn.

Staff cyfeillgar. Ardal lân.

Gwasanaeth da. Dim problemau na chamddealltwriaeth.

Hapus gyda'n meddygfa ar ôl i gynifer o bobl gael problemau gyda'r un yn Llanfair-ym-Muallt [Meddygfa Llanwrtyd].

Rwy'n meddwl ei fod yn gweithio'n iawn.

Erioed wedi cael unrhyw broblemau. Yn ymateb yn gyflym, y presgripsiynau'n barod. Dim oedi o gwbl pan ofynnaf am apwyntiad brys.

Dim problemau.

Mae ein Meddygon, Nyrsys a staff yn gwneud eu gorau. Diolch!

Staff Parchus. Cyfathrebu da gyda chleientiaid.

Maent yn ffonio os ydynt angen siarad â mi.

Staff cymwynasgar iawn. Meddygon sy'n cydymdeimlo.

Wedi cael profiad gwael gyda'm meddygfa, yn enwedig derbynyddion. Menyw ifanc sy'n meddwl ei bod hi'n well iddi hi benderfynu rhywbeth yn lle gwneud apwyntiad i fi weld meddyg.

Rwy'n berson iach dros 70 oed ac anaml y bydd angen i mi fynd i weld unrhyw feddyg teulu. Ond rwy'n ansicr a allant ymdrin yn ddigonol â gofal iechyd arferol neu ofal iechyd ataliol. Rwy'n teimlo y gallaf ond gysylltu os oes gen i argyfwng neu rywbeth difrifol.

Rwyf wedi cael trafferth cael apwyntiad gyda meddyg (yn hytrach na nyrs practis ac ati) a chael fy atgyfeirio ymlaen pan fo angen.

Nid yw'n hawdd gweld meddyg ar unwaith. Maent yn dweud dros y ffôn 'rhowch gynnig ar y tabledi hyn', yna'n ein ffonio yn ôl eto a byddwn yn rhoi gwybod iddynt nad ydynt yn gweithio.

Yn aml, mae'n anodd cysylltu â'r dderbynfa. Pan fyddaf yn llwyddo i gysylltu, 'does dim apwyntiadau ar gael am bythefnos'. Wrth ffonio eto, yn aml, mae'n rhaid aros saith i ddeg diwrnod arall cyn y gallaf weld fy meddyg. Weithiau rydyn ni'n cael cynnig gweld meddyg arall ond mae'n well gen i, fel eraill, weld ein meddyg.

Dim ond angen staff wedi'u hyfforddi a meddygon sy'n cydymdeimlo.

Rwy'n gweld eisiau'r gwasanaeth cerdded i mewn a gawsom ers blynyddoedd.

Dim paediatregydd yn ardal Llanfair-ym-Muallt. Pam?

Ymddengys nad oes byth unrhyw gleifion yn aros yn y feddygfa felly pam nad yw meddygfeydd yn mynd yn ôl i'r dyddiau pan allai cleifion fynd i mewn i weld y meddyg?

Nid yw derbynyddion yn gymwys i ofyn am gyflyrau meddygol a rhoi eu barn.

Arferai meddygon ymweld â chartrefi. Anaml iawn mae hyn yn digwydd bellach. Pam?

Yn aml, tybir bod gan bawb fynediad at wasanaethau ar-lein i allu eu defnyddio, ond nid yw hynny'n wir bob tro.

Dim parch.

Darparu gwell gofal iechyd i'r henoed, h.y. archwiliadau blynyddol. Sgiliau pobl gwael iawn - dim perthynas dda â chleifion, a dim tosturi na dealltwriaeth o anghenion pobl sy'n heneiddio.

Anodd dros ben cael ymweliad cartref gan feddygon.

Mae'r broses o ffonio meddyg, cael apwyntiad i dderbyn galwad ffôn gan feddyg, sydd fel arfer wythnos i ffwrdd, ac yna gorfod aros wythnos arall i weld y meddyg mewn gwirionedd yn un hir iawn. Angen mynd yn ôl i'r cyfnod cyn y pandemig. Ffonio meddyg a gwneud apwyntiad heb aros am alwad yn ôl (yn aml rhaid aros drwy'r bore tan 13:00), er mwyn siarad â meddyg ac yna'n gorfod gwneud apwyntiad arall.

Mae'n ymddangos bod y feddygfa'n gwella'n ddiweddar, ond mae dal lle i wella. Yn enwedig o ran trefn y dderbynfa a derbynyddion. Mae wedi bod yn ofnadwy dros ben yn y gorffennol. Lle i wella!

Anodd iawn cysylltu â'r dderbynfa. Gellir rhoi canlyniadau dros y ffôn o fewn cyfnod 30 munud penodol - ddim yn realistig pan rwy'n gweithio 2-2.30pm.

Gwasanaeth galw i mewn.

Byddai'n wych petai fferyllfa yn y feddygfa er mwyn lleihau amser teithio ac er mwyn peidio talu am barcio.

## Gan Bwy y Clywsom

Mae ein harolygon yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y gallwn gael dealltwriaeth o brofiadau a chanfyddiadau grwpiau gwahanol o bobl yn y gymuned.

Mae'r tabl canlynol yn giplun o'r bobl ym Mhowys a rannodd eu barn a'u profiadau. Nid yw pobl bob amser yn dweud popeth wrthym amdanynt eu hunain pan fyddant yn dod i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau gyda ni.

Cwblhaodd **167** o bobl ein harolygon

Cawsom **0** ymateb yn Gymraeg

Cwblhaodd **167** o bobl rai neu bob un o'r cwestiynau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Roedd **74%** yn fenywod a **25%** yn ddynion, ac roedd yn well gan **1%** beidio â dweud

Dyweddodd **1%** eu bod yn berson traws

Nododd **22%** eu bod yn heterorywiol; **1%** eu bod yn arywiol; **5%** eu bod yn ddeurywiol; **1%** eu bod yn hoyw; roedd yn well gan **67%** beidio â dweud ac ni roddodd **4%** ateb

Oedran cyfartalog y bobl a oedd yn rhannu eu barn â ni oedd **76 oed**.

Yr ieuengaf oedd **25 oed** a'r hynaf oedd **101 oed**

Roedd **95%** yn Wyn (Cymreig, Seisnig, Albanaid, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon, Prydeinig), **3%** yn Wyn (Gwyddelig), **1%** yn Wyn (Arall) ac **1%** yn Asiaidd

Dyweddodd **62%** o bobl mai Cristnogaeth oedd eu crefydd; nododd **8%** grefydd neu gred arall; **17%** Dim Crefydd; **3%** Bwdhaeth; roedd yn well gan **10%** beidio â dweud

Dyweddodd **16%** o bobl fod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor

Roedd **25%** o bobl yn ofalwyr

Roedd **2%** o bobl yn feichiog

O ran statws ariannol, dim ond digon sydd gan **20%** ar gyfer angenrheidiau sylfaenol a fawr ddim arall; mae gan **24%** fwy na digon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol ac ychydig bach o incwm gwario; nid oes gan **3%** ddigon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol ac weithiau mae arian yn brin; mae gan **50%** fwy na digon ar gyfer angenrheidiau, a llawer iawn o incwm gwario; nododd **1%** eu bod ddim yn gwybod/roedd yn well ganddynt beidio â dweud ac ni roddodd **2%** ateb



# YR HYN RYDYM WEDI'I WNEUD GYDA'R HYN RYDYM WEDI'I GLYWED

Gan ein bod yn dysgu o bob cyfnod o ymgysylltu yr ydym yn ei wneud, rydym hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys ac yn datblygu ein partneriaethau gyda nhw.

Roeddem yn falch o allu treialu ffordd newydd o adrodd yn ôl i'r sefydliadau hyn ar brif themâu'r hyn a glywsom gan bobl yn ardal Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd. Cynhaliwyd gweithdy ar y cyd a oedd yn cynnwys staff a gwirfoddolwyr Llais a chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir. Rhannwyd ein hadroddiad drafft gyda nhw cyn y sesiwn ac, yn ystod y cyfarfod, roeddem yn gallu tynnu sylw at rai o'r prif themâu, trafod meysydd gwaith sydd eisoes ar y gweill, a nodi rhai camau gweithredu i'w cymryd.

Dyma'r prif themâu a ystyriwyd gennym yn y gweithdy:

- Buom yn trafod y gwerth a'r grym y gall straeon cleifion unigol eu rhoi wrth helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall yr hyn sy'n bwysig i bobl. Ym Mhowys, rydym yn awyddus i ddatblygu model stori'r claf ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i fwrw ymlaen â hyn.
- Roedd anawsterau o ran cael mynediad at ddeintyddion y GIG yn fater a godwyd gyda ni mewn llawer o'n sesiynau ymgysylltu yn yr ardal. Cydnabyddir bod heriau ledled y DU o ran gallu cael mynediad at ofal deintyddol wedi'i gynllunio.

Mae mynediad at ofal deintyddol brys ym Mhowys ond cydnabyddir, yn aml, bod hyn yn golygu bod angen i gleifion deithio i gyrraedd yr apwyntiad a gall hyn fod yn anodd i rai pobl. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r gofal deintyddol brys sydd ar gael yn barhaus.

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys linell gymorth ddeintyddol sy'n rhoi mynediad i gleifion at eu rhestr aros ddeintyddol. Gall unrhyw un sy'n byw ym Mhowys, neu sydd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu ym Mhowys, ac sydd angen cymorth i ddod o hyd i ddeintydd, ffonio Llinell Gymorth Ddeintyddol Powys ar 01686 252808. Mae yna gynlluniau i ddatblygu rhestr aros Cymru gyfan i helpu i ddeall maint y galw a blaenoriaethu'r rhai sydd wedi bod yn aros hiraf.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu sefydlu clinig deintyddol symudol y bydd modd ei flaenoriaethu ar gyfer yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Bydd y broses o recriwtio staff i weithredu'r gwasanaeth hwn yn dechrau'n fuan.

Mae hefyd angen codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau yn y canllawiau ar archwiliadau deintyddol arferol. Mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn argymhell y dylai adolygiadau iechyd y geg fod yn seiliedig ar angen ac, i lawer o oedolion, yr argymhelliad yw y dylid cynnal yr archwiliadau hyn bob dwy flynedd.

- Siaradom am yr adborth a gawsom am Ganolfan Glan Irfon. Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda'r darparwr, Shaw Healthcare, a bydd yn rhannu'r adborth gydag ef. Yn ddiweddar, penodwyd ffisiotherapydd gyda phrif gyfrifoldeb am Ganolfan Glan Irfon a bydd hyn yn helpu i gefnogi adsefydlu pobl yn yr uned ail-alluogi. Nododd y Cyngor Sir y byddai'n ddefnyddiol pennu gweithiwr penodol a allai weithio ar y cyd â Glan Irfon a rhoi gwybodaeth a chyngor i drigolion.
- Bydd yr enghreifftiau a rannwyd gennym am wasanaethau a dderbyniwyd y tu allan i Bowys yn cael eu rhannu â'r darparwyr gwasanaeth. Byddant hefyd yn helpu i gefnogi cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal yn nes at y cartref lle mae'n glinigol ddiogel a chynaliadwy i wneud hynny.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gydag ysbytai cyffredinol dosbarth i geisio lleihau'r amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.

- Trafodwyd yr adborth gan blant a phobl ifanc hefyd. Mae'r Tîm Nyrso Ysgolion wedi bod yn hyrwyddo llinell gymorth negeseuon testun ChatHealth trwy ddarparu cardiau busnes mewn apwyntiadau brechu. Mae'r tîm hefyd yn archwilio ffyrdd eraill o godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth megis trwy sianeli Facebook ac Instagram, a thrwy glybiau ieuenctid a Chlybiau Ffermwyr Ifanc.

Mewn ymateb i awgrym y bobl ifanc yr hoffent weld cyrsiau Cymorth Cyntaf yn cael eu cynnal mewn ysgolion, fe wnaeth y Cyfarwyddwr

Addysg ymrwymo i gysylltu â Phenaethiaid a bydd yn rhannu manylion sefydliadau sy'n gallu darparu sesiynau Cymorth Cyntaf, megis Ambiwylans Sant Ioan Cymru. Cadarnhawyd bod sesiynau Cymorth Cyntaf wedi'u cynnal mewn rhai ysgolion ym Mhowys.

Gwelsom fod y ffordd hon o weithio mewn partneriaeth yn werthfawr iawn. Bydd Llais Powys yn parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys i ddatblygu ffyrdd o sicrhau bod yr adborth a ddarperir gan drigolion Powys yn helpu i lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol.

## CRYNODEB

Yn ystod y cyfnod hwn o ymgysylltu, rydym wedi clywed adborth am ystod eang o wasanaethau gwahanol.

Ar y cyfan, mae pobl yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn ac, mewn llawer o achosion, yn canmol y staff a'r gofal a ddarperir, yn enwedig y gwasanaethau a dderbynnir yn lleol. Ond clywsom hefyd bryderon am anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau am wahanol resymau. Roedd hyn yn enwedig ynghylch cysylltu â'r Practis Meddyg Teulu dros y ffôn, anhawster cael mynediad at ofal deintyddol y GIG, prinder gofalwyr cyflogedig ac amseroedd aros am ofal wedi'i gynllunio.

Mae'n bwysig bod cynllunwyr a darparwyr gwasanaethau yn gallu clywed am brofiadau pobl, ac yn fodlon gwneud hynny. Rydym yn gweithio'n ddiflino i feithrin y berthynas sydd gennym â'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir ym Mhowys fel eu bod yn gallu deall beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella.

## Ymateb gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

29 Ionawr 2024

### ADRODDIADAU YMGYSYLLTU LLAIS

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar adroddiadau eich gweithgareddau ymgysylltu diweddar:

- Adroddiad ar Yr Hyn Rydym Wedi'i Glywed ym Mhowys: Ymgysylltu sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned yn Ardal Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd (Tachwedd 2023)

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod llais cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach wrth wraidd ein gwaith cynllunio, ein blaenoriaethau a'n gwaith gwella gwasanaethau.

Mae'r ymrwymiad hwn yn adlewyrchu dyletswyddau statudol pwysig ar gyfer cyrff y GIG gan gynnwys drwy'r Ddyletswydd Ansawdd newydd yn rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Yn rhan o'r Ddyletswydd Ansawdd hon, rhaid i ni ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd (i'r dde), sy'n darparu fframwaith i asesu ansawdd a llywio gwelliant. "Canolbwyntio ar yr Unigolyn" yw un o'r meysydd ansawdd allweddol ochr yn ochr â Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon a Theg.

Mae adroddiad Llais yn rhoi adborth eang sy'n cwmpasu ystod eang o adrannau a chyfarwyddiaethau gwahanol yn y bwrdd iechyd. Mae hefyd yn cwmpasu gwasanaethau a gomisiynir gan y bwrdd iechyd o gontractwyr gofal sylfaenol lleol (e.e. meddygon teulu, deintyddion) ac o



ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal eraill (e.e. llwybrau at wasanaethau aciwt ac arbenigol a ddarperir gan ysbytai cyfagos yng Nghymru a Lloegr).

Roeddem felly'n ddiolchgar am y cyfle i brofi dull partneriaeth newydd gyda Llais Powys a Chyngor Sir Powys trwy ein sesiwn gweithdy ar y cyd ar 19 Ionawr 2024. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr a chyd-gynhyrchiol i weithio gyda gwirfoddolwyr a staff Llais i ganolbwyntio ar y prif themâu, i drafod meysydd lle mae gwaith yn mynd rhagddo, ac i nodi camau pellach y gallwn eu cymryd mewn partneriaeth.

Yn ystod y gweithdy buom yn canolbwyntio ar brofiad a chamau gweithredu mewn perthynas â'r themâu allweddol canlynol:

- Straeon Dinasyddion a Chleifion
- Deintyddiaeth
- Plant a Phobl Ifanc
- Glan Irfon
- Llwybrau wedi'u Comisiynu ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng a Gofal wedi'i Gynllunio

## **Straeon Dinasyddion a Chleifion**

Buom yn trafod grym straeon a phersonau dinasyddion a chleifion i ddarparu adborth manwl a phersonol i'n helpu i wella ein gwasanaethau'n barhaus. Clywsom, yn rhan o ddatblygiad cenedlaethol Llais, fod gwaith ar y gweill yn ardal Bae Abertawe i ddatblygu model stori'r claf i'w fabwysiadu ledled y wlad. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi wrth i'r dull hwn ddatblygu.

Bydd hyn yn cyd-fynd â'n hymagwedd ehangach at brofiad y claf sy'n cynnwys ein platfform profiad cleifion CIVICA sy'n ein helpu i gasglu adborth am wasanaethau yn y sir a'r tu allan iddi. Mae'r system hon yn ein helpu i ddeall sut mae cleifion yn teimlo am eu profiad mewn ysbytai cyffredinol dosbarth. Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth i hybu ymwybyddiaeth o hyn fel y gallwn weithredu ar y materion hynny sydd bwysicaf i drigolion Powys.

***Cam Gweithredu Allweddol: Cydweithio ar ddatblygiad parhaus ein hymagwedd at straeon dinasyddion a chleifion***

## Deintyddiaeth

Yn eich adborth, fe wnaethoch dynnu sylw at y materion a godwyd ynghylch mynediad at ddeintyddiaeth.

Mae heriau o ran mynediad at ofal deintyddol wedi'i gynllunio ledled y DU ar hyn o bryd, gan gynnwys yma ym Mhowys. Mae niferoedd cynyddol o ddeintyddion yn dechrau cynnig gwasanaeth preifat sydd wedi'i gwneud yn anodd caffael neu recriwtio digon o gapasiti deintyddol y GIG i ateb y galw.

Yma ym Mhowys, rydym wedi bod yn arwain y ffordd gyda'n llinell gymorth ddeintyddol sy'n rhoi mynediad i gleifion at ein rhestr aros ddeintyddol. Bellach mae cynlluniau i ddatblygu rhestr aros Cymru gyfan i'n helpu i ddeall maint y galw a blaenoriaethu'r bobl hynny sydd wedi bod yn aros hiraf.

Cyn bo hir, byddwn yn dechrau'r broses benodi ar gyfer rôl ddeintyddol gyflogedig ychwanegol ym Mhowys. Y nod yw rhoi staff mewn clinig symudol y gellir ei flaenoriaethu i'r ardaloedd ble mae'r angen mwyaf. Mae'r farchnad recriwtio yn parhau i fod yn heriol, ond byddwn yn sicrhau bod Llais Powys yn cael gwybod y cynnydd o ran y rôl a'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn gweithio'n galed i wella mynediad at ofal deintyddol brys, ac ar y rhan fwyaf o adegau mae gennym y capasiti i ateb y galw. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod natur wledig Powys yn cyflwyno rhai heriau i ni ac i gleifion, gan ei bod yn bosibl y bydd angen i'r claf deithio ar gyfer yr apwyntiad cyntaf posibl sydd ar gael. Gall hyn fod yn anodd i bobl heb gerbyd ac/neu sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rydym yn parhau i adolygu argaeledd gofal deintyddol brys.

***Cam Gweithredu Allweddol: Parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Llais Powys ar ddatblygiad pellach ein gwasanaeth deintyddol cyflogedig, ac ar ddatblygiad rhestr aros Cymru gyfan.***

Siaradom hefyd am bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i archwiliadau arferol. Mae llawer o bobl yn cofio'r cyfnod pan argymhellwyd archwiliad bob chwe mis. Serch hynny, mae canllawiau NICE o 2004 yn argymhell y dylai cyfnodau adolygu iechyd y geg fod yn seiliedig ar angen, a'r argymhelliad i lawer o oedolion yw dim ond bob dwy flynedd. Roeddem yn ddiolchgar o glywed bod Llais yn



bwriadu helpu i godi ymwybyddiaeth drwy eich gweithgareddau ledled Cymru.

## Plant a Phobl Ifanc

Rydym yn ddiolchgar iawn am y sylwadau a gasglwyd gennych gan blant a phobl ifanc, ac roedd y drafodaeth ar fynediad at nyrs ysgol a ChatHealth yn ddefnyddiol iawn. Mae'r tîm eisoes wedi dechrau hyrwyddo'r gwasanaeth mewn ffyrdd newydd, gan gynnwys drwy ddarparu cardiau busnes mewn apwyntiadau brechu. Mae'r tîm wedi sefydlu sianeli Facebook ac Instagram newydd. Er ei fod yn cydnabod manteision Snapchat a TikTok, nid ydynt wedi'u galluogi ar hyn o bryd ar systemau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dilyn asesiad o risgiau seiberddiogelwch.

Byddwn hefyd yn ymchwilio i'r materion a godwyd ynghylch pa mor briodol yw deunyddiau cyhoeddusrwydd.

### ***Cam Gweithredu Allweddol: Parhau i hyrwyddo gwasanaeth ChatHealth.***

## Glan Irfon

O ganlyniad i'ch ymweliad â Glan Irfon, cawsom adborth defnyddiol gan breswylwyr am eu profiad yno ac mewn ysbytai aciwt.

Mae Glan Irfon wedi'i gofrestru ar gyfer darparu gofal canolraddol a phreswyl. Mae nyrsys ardal a thimau eraill yn darparu gwasanaeth nyrsio trwy wasanaeth mewngymorth, yn seiliedig ar anghenion clinigol preswylwyr. Rydym wedi gwella'r gwasanaeth clinigol yn ddiweddar drwy benodi ffisiotherapydd gyda phrif gyfrifoldeb am Ganolfan Glan Irfon, a fydd yn cefnogi preswylwyr i adsefydlu.

Ar y cyd â Chyngor Sir Powys, rydym yn parhau i geisio sicrhau bod Glan Irfon yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl ar gyfer y trigolion hynny sy'n bodloni eu meini prawf derbyn, a bydd yr adborth o'ch ymgysylltiad yn yr ardal leol yn ein helpu gyda'r gwaith hanfodol hwn. Mae hyn yn cynnwys rhannu'r adborth gyda Shaw, darparwr Glan Irfon, i helpu i sicrhau profiad o ansawdd i breswylwyr.

### ***CAM GWEITHREDU ALLWEDDOL: Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i barhau i gydweithio ar ddefnyddio Glan Irfon yn effeithiol***

## Llwybrau wedi'u Comisiynu ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng / Gofal wedi'i Gynllunio

Rydym yn cydnabod yn llawn bod y pwysau a brofir ar draws y system gofal brys ac argyfwng yn effeithio'n andwyol ar brofiad cleifion. Mae amseroedd aros ar gyfer gweithdrefnau gofal wedi'i gynllunio yn parhau'n hir, ac yn hirach fyth o ganlyniad i effaith y pandemig COVID.

Roedd eich ymgysylltiad yn yr ardal leol yn cynnwys enghreifftiau y gallwn eu rhannu â'n partneriaid mewn ysbytai cyffredinol dosbarth y tu allan i Bowys, yn ogystal ag i'n cefnogi gyda'n cynlluniau ar gyfer gwasanaethau ym Mhowys. Er enghraifft, mae datblygiad pellach ein gwasanaethau mân anafiadau yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol fel y gallwn ddarparu hyd yn oed mwy o wasanaethau yn nes at y cartref. Ar gyfer trigolion yn ardaloedd Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd, bydd y prif gyfleusterau Uned Mân Anafiadau yn cynnwys Ysbyty Llandrindod ac Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog.

Rydym hefyd yn cydnabod bod natur wledig Powys yn golygu bod cyfyngiadau ar y gwasanaethau y gallwn eu darparu yn y sir. Ar gyfer llawer o wasanaethau aciwt ac arbenigol, mae ein cymunedau'n dibynnu ar wasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth (YCD) y tu allan i'r sir. Er gwaethaf hyn, ein huchelgais o hyd yw darparu gofal yn nes at y cartref lle mae'n glinigol ddiogel a chynaliadwy darparu'r gwasanaethau hyn mewn lleoliad cymunedol gwledig. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda darparwyr YCD i geisio lleihau amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.

***CAM GWEITHREDU ALLWEDDOL: Yn ystod 2024 rydym yn cynllunio sgwrs barhaus gyda phobl Powys am ddyfodol iechyd a gofal.***

Diolch am yr adroddiad hwn, a diolch i swyddogion a gwirfoddolwyr Llais am y gwaith yr ydych yn ei wneud wrth wrando ar brofiadau pobl Powys, a rhannu'u barn a phrofiadau.

# ATODIAD B

## Ymateb gan Gyngor Sir Powys

01 Chwefror 2024

Diolch am eich adroddiad ymgysylltu diweddaraf o ardal Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd.

Diolch i chi am barhau i ddarparu'r Adroddiadau Adborth i dîm Adborth y Gwasanaethau Cymdeithasol ochr yn ochr â mi fel y gallant yrru agweddau perthnasol yn eu blaenau drwy'r prosesau Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae hwn yn ystyried dysgu a chanlyniadau, ac yn hyrwyddo arfer gorau o gwynion, canmoliaeth ac adborth; caiff camau gweithredu eu nodi a'u monitro a chaiff themâu yn yr Adroddiad Cwynion Blynyddol eu cofnodi. Bydd Adroddiad Adborth Llais ac ymateb Powys yn cael eu hystyried yn Sesiynau Gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i Ddeiliaid Portffolio a'u rhoi i'r Pwyllgor Craffu ar Iechyd a Gofal.

Fel y gofynnwyd yn flaenorol, efallai y bydd Llais yn dymuno rhannu taflen Adborth Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys mewn digwyddiadau ymgysylltu, neu gyfeirio pobl at ein tudalen adborth ar y we:

<https://cy.powys.gov.uk/article/11303/Proses-Cwyno-Canmol-a-Sylwadau-Gwasanaethau-Cymdeithasol>

Mae ymateb mwy cyfyngedig wedi'i ddarparu lle'r oedd yr adborth yn ddienw a/neu'n gyfyngedig. Os bydd unigolyn yn gofyn am ymateb manwl mewn perthynas â'i amgylchiadau personol, anogwch ef i gysylltu gan ddefnyddio'r manylion cyswllt wedi'u darparu uchod. Mewn rhai achosion, nid oedd yn glir pa wasanaeth y Cyngor yr oedd yr adborth yn ymwneud ag ef; ac mewn rhai achosion efallai ei fod yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau sefydliadau eraill megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Sylwadau	Ymateb	Cam Gweithredu
<p><b>Nid oedd claf yn gallu gadael yr ysbyty am ddau fis, oherwydd yr oedi wrth sefydlu pecyn gofal. Ymhen hir a hwyr, cafodd ei drosglwyddo i gartref gofal.</b></p>	<p>Mae'r prinder gofalwyr i ddarparu gofal i'r rhai yn y gymuned yn fater cenedlaethol, sy'n gallu cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion. Mae Cyngor Sir Powys yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner a darparwyr i reoli'r her barhaus ynghylch prinder gofalwyr, ac i fynd i'r afael â'r her. Mae mentrau fel yr Academi Iechyd a Gofal Cymdeithasol a phroses recriwtio symlach gan y Cyngor ar gyfer gofalwyr bellach ar waith. Mae hyn yn barod yn dangos buddion ac yn tawelu meddwl rhywfaint, ond rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r prinder mewn pecynnau gofal oherwydd prinder gofalwyr.</p>	
<p><b>Roedd claf wedi aros sawl gwaith yn yr ysbyty ac wedi bod yn yr ysbyty ers mis Gorffennaf. Roedd y claf yn teimlo'n rhwystredig bod y pecyn gofal a'r addasiadau cartref gofynnol yn cymryd amser hir i'w trefnu. Roedd o'r farn bod y diffyg cyfathrebu a gwybodaeth yn ddigon i dorri'i ysbryd.</b></p>	<p>Ymhellach i'r sylw uchod, mae'n nodi hyn mewn perthynas â lleoliad gofal penodol a enwir.</p> <p>Nododd y Gwasanaethau Oedolion y byddai pennu gweithiwr penodol i weithio ar y cyd â'r lleoliad hwn yn ddefnyddiol. Mae Swyddog Adolygu wedi'i nodi i roi cymorth i drigolion mewn perthynas â gwybodaeth a chyngor, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud hyn yn gynaliadwy.</p>	

**Ni chafodd claf unrhyw esboniad ynghylch pam yr oedd oedi mewn perthynas â'i becyn gofal. Disgrifiodd ei ystafell fel 'cell carchar' a bod Glan Irfon fel 'lle i'r anghofiedig', er bod y staff yn garedig a chyfeillgar.**

**Nid oedd gan y claf weithiwr cymdeithasol a disgrifiodd ei fod yn teimlo 'wedi'i roi o'r neilltu'. Roedd yn methu â chael gafael ar gyngor proffesiynol na gwybodaeth am drosglwyddo gofal y gallai fod wedi'u cael mewn ysbyty.**

Gweler y ddau ymateb uchod. Mae'n ddrwg gennym glywed profiad unrhyw un nad yw'n gadarnhaol, a byddem yn croesawu'r cyfle i gael gwybod mwy am yr unigolyn penodol hwn a'i amgylchiadau.

**Soniodd pobl am brinder staff a'r anhawster wrth sefydlu pecynnau gofal, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Un enghraifft oedd pecyn y cytunwyd arno 4 mis yn ôl ond na chafodd ei drefnu er gwaethaf cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd. Arweiniodd hyn at bobl yn ceisio gofalu am eu hanwyliaid heb gymorth a seibiant.**

Gweler yr ymatebion blaenorol. Mae'n ddrwg iawn gennym am unrhyw oedi wrth sefydlu pecyn gofal ac rydym yn parhau i weithio ar fynd i'r afael â'r heriau sy'n atal pecynnau gofal rhag cael eu darparu mewn modd amserol.

<p><b>Siaradodd un person am sylwadau amhriodol a wnaed gan rywun pan oedd yn dioddef o iselder a chysylltodd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am gymorth.</b></p>	<p>Hoffem yn fawr gael y cyfle i ddeall ei brofiad a'r sefyllfa y mae'r sylw yn ymwneud â hi, a hynny er mwyn hyrwyddo newid arfer sydd efallai'n angenrheidiol.</p>	
<p><b>Dywedodd nifer o ddisgyblion yr hoffent weld cyrsiau Cymorth Cyntaf mewn ysgolion, oherwydd pryderon am amseroedd aros ar gyfer ambiwlansys. Roedd rhai disgyblion wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf mewn grwpiau/gweithgareddau y maent yn eu mynychu y tu allan i'r ysgol, ac roeddent yn meddwl ei bod yn bwysig i bob person ifanc gael yr hyfforddiant.</b></p>	<p>Mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi cytuno i rannu'r pryder hwn gyda Phenaethiaid, a chyfeirio at sefydliadau sy'n darparu sesiynau Ymwybyddiaeth Cymorth Cyntaf ac a allai gyflwyno sgiliau achub bywyd i ddisgyblion yn yr ysgol.</p>	<p>Y Cyfarwyddwr Addysg i gysylltu â Phenaethiaid a rhannu manylion sefydliadau a allai gyflwyno sesiynau Cymorth Cyntaf megis Sant Ioan Ambiwlsans Cymru.</p>

<p><b>Buom yn siarad â phobl ifanc am y bwriad i Llais/Bwrdd Iau Dechrau'n Dda gynnal arolwg iechyd meddwl gyda phobl ifanc.</b></p> <p><b>Dywedodd y disgyblion y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus ac y byddai'n well ganddynt i hyn fod yn arolwg dienw ac ar-lein yn hytrach na thrwy grwpiau ffocws bach wyneb yn wyneb. Awgrymodd y disgyblion y gellid gwneud hyn drwy'r ysgol, gan fod arolygon eraill yn cael eu cynnal yn y ffordd honno, ac efallai y byddai'n bosibl eu trefnu drwy'r Pennaeth.</b></p>	<p>Bydd y pwynt hwn yn cael ei rannu â'r Tîm Comisiynu Plant sy'n hwyluso Bwrdd Iau Dechrau'n Dda.</p>	
<p><b>Dywedodd rhai unigolion yr hoffent i ofalwyr gael mwy o amser ar gyfer ymweliadau a chael mwy o ryngweithio cymdeithasol yn ystod yr ymweliadau.</b></p>	<p>Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i alwadau gofal o ddim llai na 30 munud. Mae adborth yn dangos y gall hyn, ar adegau, fod yn hirach na'r angen ar gyfer yr unigolyn ac yn gyffredinol mae'n ddigon i sicrhau bod yr anghenion gofal yn cael eu diwallu. Law yn llaw â hyn, sicrheir na chaiff staff eu gorlethu ac na chaiff y gallu i ddarparu gofal ei leihau.</p>	<p>Byddwn yn parhau i fonitro safbwyntiau Darparwyr Gofal a chynrychiolwyr ar fforymau defnyddwyr gwasanaeth.</p>

<p><b>Dyweddod un person fod ei ofalwyr fel arfer yn hwyr a bod hyn yn golygu ei fod ofn cwmpo a chael damweiniau toiled.</b></p>	<p>Yn anffodus, mae yna adegau pan fydd hi'n anochel y bydd gofalwyr yn cael eu hoedi, er enghraifft os yw defnyddiwr gwasanaeth arall yn sâl ac angen gofal ychwanegol heb ei gynllunio, neu os oes gwaith traffig. Mae Darparwyr Gofal bob amser yn hapus i dderbyn adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig os yw'r mater yn codi o hyd.</p>	
<p><b>Cafwyd rhai sylwadau am yr angen i fwy o help fod ar gael a chael ei gynnig i bobl hŷn, er enghraifft cymorth gyda thasgau corfforol o amgylch y cartref a chymorth yn ystod amser prydau bwyd.</b></p>	<p>Anogwch breswylwyr i gysylltu â'r gwasanaeth CYMORTH os ydynt o'r farn y gallent elwa o gymorth ychwanegol i helpu i ddiwallu eu hanghenion.</p> <p>Bydd triniwr galwadau yn cael sgwrs <i>'beth sy'n bwysig'</i> gyda'r unigolyn i ddeall ei anghenion gofal a chymorth yn well er mwyn ei atgyfeirio i'r Gwasanaeth ar gyfer asesiad neu ei gyfeirio at wasanaeth arall sy'n gallu bodloni ei anghenion.</p> <p>CYMORTH 0345 602 7050</p> <p><a href="mailto:Assist@powys.gov.uk">Assist@powys.gov.uk</a></p>	

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth a'r sylwadau uchod yn ddefnyddiol, yn llawn gwybodaeth ac yn adeiladol. Cadarnhewch a yw'r dull hwn o ymateb i'ch adborth yn bodloni'ch gofynion o hyd.



## DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Gobeithiwn fod yr adborth y mae pobl wedi'i gymryd o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda - a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

## ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

## MANYLION CYSWLLT

**RHANBARTH LLAIS POWYS,  
LLAWR GYNTAF, NEUADD BRYCHEINIOG,  
FFORDD CAMBRIAN,  
ABERHONDDU, POWYS,  
LD3 7HR.**

**FFÔN: 01874 624206  
E-BOST: POWYSENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG  
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG  
FACEBOOK: @LLAISPOWYS  
TWITTER: LLAIS\_WALES**

**LLAWR GYNTAF,  
TŶ LADYWELL,  
Y DRENEWYDD, POWYS,  
SY16 1JB.**

**FFÔN: 01686 627632**